# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Ashbury House**

**Magwyr**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

17 Awst 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn ag Ashbury House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Consensus Support Services Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth hwn ers iddo gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl a'u perthnasau yn hapus â'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn. Mae trefniadau ymweld ar waith sy'n hybu llesiant cyffredinol y bobl ac yn cefnogi eu hymdeimlad o berthyn. Mae'r bobl yn cael eu trin ag urddas ac mae eu llais yn cael ei glywed; maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn defnyddio'r gymuned. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar ganlyniadau a chynhelir adolygiadau rheolaidd. Mae gan bobl fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol priodol. Mae'r staff yn ofalgar a gwybodus ac yn ymateb i anghenion y bobl. Mae yna dîm staffio ymroddedig sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer eu rolau. Mae gan y darparwr gwasanaeth brosesau sicrhau ansawdd ar waith i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir yn gyffredinol ac i gasglu adborth gan bobl, eu perthnasau a staff er mwyn llywio gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae angen cryfhau'r systemau ar gyfer monitro goruchwyliaeth staff, recriwtio staff a'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Mae angen i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw a'i fod yn ddiogel, a bod sylw penodol yn cael ei roi i oruchwylio meddyginiaethau.

## Llesiant

Mae amgylchiadau unigol y bobl yn cael eu hystyried. Gwelsom drwy gydol y dydd fod y bobl yn gwneud pethau gwahanol. Roedd un person yn mwynhau gweithgaredd yn yr ardd – fe’i gwelsom yn gwenu ac, o iaith ei gorff, roedd yn amlwg ei fod wedi mwynhau'r gweithgaredd hwn yn fawr. Mae cynlluniau personol yn cofnodi'r hyn y mae’r bobl yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi, a sut y gallant fynegi eu hemosiynau pan na allant wneud hynny. Mae’r staff gofal yn cofnodi cyfarfodydd un i un, ac mae'r rhain yn adlewyrchu sut mae’r bobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau unigol. Er enghraifft, dywedwyd wrthym fod un person yn cael ei gefnogi i fynd i'r sinema, tra oedd person arall yn mwynhau nofio. Mae’r bobl yn elwa ar berthnasoedd â staff cyfarwydd. Mae cofnodion cyfarfodydd yn dangos bod dymuniadau’r bobl yn cael eu hystyried. Mae trefniadau ymweld ar waith a dywedodd un aelod o'r teulu wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn rhan o'r trefniadau gofal.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi iechyd a llesiant y bobl, er bod angen rhywfaint o welliannau. Mae’r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl. Mae cynlluniau personol yn hysbysu staff ynghylch sut mae'n rhaid iddynt gefnogi pobl. Mae'r rhain yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen. Mae tystiolaeth bod y gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol i gefnogi llesiant cyffredinol y bobl, ond fe wnaethom nodi nad yw'r darparwr gwasanaeth wedi mynd ar drywydd amod cyfreithiol awdurdodiad i amddifadu rhywun o'i ryddid mewn modd priodol. Mae systemau meddyginiaeth ar waith ond mae angen eu cryfhau i sicrhau bod llesiant cyffredinol y bobl yn cael ei gynnal yn gyson.

Mae yna fecanweithiau a pholisïau ar waith i ddiogelu’r bobl sy'n wynebu risg. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu ar gael. Mae'r staff yn gwybod sut i godi pryderon os ydynt yn amau niwed i unigolyn ac maent wedi'u hyfforddi mewn diogelu. Mae system gweithiwr allweddol yn rhoi cyfle i bobl fynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae risgiau wedi'u nodi ar gyfer y bobl ac mae asesiadau ar waith i staff eu dilyn. Mae'r darparwr wedi cwblhau gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar staff yn unol â’r gofynion rheoliadol. Mae’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel.

Nid yw'r amgylchedd bob amser yn hyrwyddo llesiant cyffredinol y bobl. Mae'r cartref yn lân ac yn gyfforddus; fodd bynnag, mae angen ailaddurno rhai mannau cymunol ac mae angen adnewyddu rhai carpedi a dodrefn. Mae angen adolygu hygyrchedd y gegin i sicrhau bod pawb yn gallu bod yn rhan o ddatblygu a chynnal eu hannibyniaeth. Mae mannau allanol yn cael eu cadw'n dda. Mae angen gwelliannau o ran storio sylweddau peryglus yn ddiogel a storio gwybodaeth bersonol. Mae angen adolygu rhagofalon diogelwch tân yn y golchdy er mwyn sicrhau bod diogelwch cyffredinol y bobl yn cael ei gynnal yn gyson.

## Gofal a Chymorth

Mae yna bethau i bobl edrych ymlaen atynt. Mae’r staff gofal yn cefnogi’r bobl mewn modd cadarnhaol i wneud penderfyniadau am yr hyn y maent yn ei wneud a sut y maent yn treulio eu hamser. Arddangosir rhaglenni gweithgareddau unigol. Mae system gweithiwr allweddol yn cefnogi’r bobl i wneud penderfyniadau am eu gofal, gan roi cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn pethau sydd o bwys iddynt. Gwelsom un person yn ymlacio yng nghysur ei ystafell wely yn gwylio'r teledu, tra oedd person arall yn defnyddio 'Alexa' i chwarae ei hoff gerddoriaeth yn yr ardd. Dywedwyd wrthym fod dau o bobl yn cael eu cefnogi i gael mynediad i'r pwll nofio lleol. Mae cynlluniau personol yn adlewyrchu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl. Gwelsom staff yn galluogi un person i symud, gan annog yn dyner a'i gefnogi i gerdded yn annibynnol.

Mae gwybodaeth ar gael i staff am sut i gefnogi’r bobl. Gwelsom fod gan y staff ddealltwriaeth dda o'r cymorth sydd ei angen ar bobl a'u bod yn cwblhau adolygiadau o anghenion gofal. Caiff cynlluniau personol eu diweddaru gan amlaf i adlewyrchu eu gofynion cymorth presennol. Fe wnaethom nodi awdurdodiad o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn un o’r ffeiliau sy'n destun amod penodol ac nad yw wedi bod yn destun camau dilynol fel sy'n ofynnol gan y darparwr gwasanaeth. Ymhellach, nid yw'r amod penodol hwn yn cael ei gofnodi yng nghynllun personol yr unigolyn hwn. Gwnaethom drafod y materion hyn â'r rheolwr, a roddodd sicrwydd y byddent yn cael sylw.

Caiff y bobl eu trin â pharch a hyrwyddir eu hiechyd a'u llesiant. Ceisir cymorth gofal iechyd allanol mewn ffordd ragweithiol ac ataliol. Mae’r bobl yn cael eu cefnogi i gael mynediad at ystod o wasanaethau gofal iechyd cymunedol. Gwelsom fod y staff yn ofalgar ac yn rhoi sylw i anghenion cyfathrebu y bobl. Roedd yn amlwg o'n harsylwadau bod y staff yn gyfarwydd ag anghenion y bobl. Gwelsom gyfraniad gan therapydd galwedigaethol mewn cynllun ar gyfer un unigolyn. Dywedodd un berthynas a oedd yn ymweld wrthym, *‘Mae cyfathrebu'n dda, mae [X] yn ddiogel.’* Gwelsom fod trefniadau ymweld ar waith, sy'n hwyluso cyswllt rheolaidd â theuluoedd.

Mae systemau ar waith i reoli meddyginiaeth y bobl, er bod angen goruchwyliaeth bellach ar y rhain. Mae trefniadau diogel ar gyfer storio meddyginiaeth mewn ystafell y gellir ei chloi ac sy'n hygyrch i staff awdurdodedig yn unig. Rydym yn nodi bod gan un person feddyginiaeth wedi'i storio'n ddiogel yn ei ystafell wely ei hun. Mae'r staff yn monitro tymheredd yr ystafell lle mae meddyginiaethau yn cael eu storio. Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth. Mae rhai anghysondebau ar gofnodion rhoi meddyginiaeth, gan gynnwys bylchau ar siartiau, ac ni chofnodwyd unrhyw esboniadau am yr hepgoriad. Gwelsom fod meddyginiaeth eneuol wedi mynd y tu hwnt i'r dyddiad a argymhellir ar gyfer ei defnyddio. Gwnaethom nodi meddyginiaeth wrthseicotig nad yw'r rhagnodwr wedi'i hadolygu yn ôl y gofyn. Gwnaethom drafod y materion hyn gyda'r rheolwr, a roddodd sicrwydd y byddent yn cael sylw. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

## Yr Amgylchedd

Mae’r bobl yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion ar y cyfan, ond mae angen gwelliannau i sicrhau bod y cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Mae ymwelwyr yn llofnodi wrth gyrraedd y safle er mwyn cynnal diogelwch y bobl. Mae asesiadau risg ar waith i sicrhau y cedwir at arferion amddiffyn rhag heintiau a’u rheoli. Mae’r bobl yn elwa ar fan awyr agored sy'n ddiogel ac yn hygyrch. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u haddasu i adlewyrchu chwaeth bersonol ac yn cynnwys eitemau fel ffotograffau teuluol a dodrefn. Mae’r bobl yn treulio amser yn eu hystafelloedd gwely os ydynt yn dewis gwneud hynny, neu fel arall yn eistedd allan mewn mannau cymunol yn chwarae gweithgareddau ac yn treulio amser gyda'i gilydd. Mae'r ystafelloedd ymolchi a'r gegin yn lân a chedwir cofnodion glanhau. Mae angen gwella hygyrchedd y gegin er mwyn galluogi pawb i ddatblygu a chynnal eu sgiliau byw bob dydd. Mae rhai rhannau o'r cartref sydd angen eu hailbaentio ac mae angen trwsio/disodli rhai dodrefn cymunol a charpedi. Esboniodd y darparwr fod y gwasanaeth wedi bod heb berson cynnal a chadw penodedig am gyfnod sylweddol o amser, a bod recriwtio rhywun priodol wedi bod yn heriol.

Mae angen gwelliannau i arferion staff ac i'r cyfleusterau i sicrhau bod llesiant cyffredinol y bobl yn cael ei hybu'n gyson. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch ar waith; fodd bynnag, mae angen i systemau fod yn fwy cadarn. Mae’r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn dilyn gweithdrefnau cywir. Gwelsom gofnodion wedi'u cwblhau o wasanaethu ar gyfer diogelwch trydanol ac offer codi. Mae offer atal ffenestri yn eu lle i gynnal diogelwch y bobl. Mae gwiriadau diogelwch tân arferol yn cael eu cwblhau yn yr amgylchedd ac mae’r staff yn cymryd rhan mewn ymarferion tân rheolaidd. Gwnaethom adolygu asesiad risg tân a gwblhawyd ym mis Mawrth 2021; cofnodir bod camau gweithredu wedi'u cwblhau ond nid yw'r asesiad risg wedi'i adolygu'n flynyddol. Rydym yn nodi bod angen rhoi sylw i fesurau diogelwch tân yn y golchdy a bod angen gwasanaeth blynyddol ar offer diogelwch nwy. Nid yw'r cloriannau pwyso yn y gwasanaeth wedi bod yn gweithio ers mis Chwefror 2022. Mae angen cael gwared ar annibendod yn swyddfa'r staff, ac mae diogelwch y llawr yn cael ei beryglu. Ni chyflwynwyd hysbysiad y tro hwn gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol nac arwyddocaol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau ar waith i gynorthwyo’r gwaith o gynnal y gwasanaeth. Yr unigolyn cyfrifol sy’n goruchwylio’r gwasanaeth. Mae'n ymweld â'r gwasanaeth i siarad â’r unigolion sy'n byw yno, i ymgynghori â’r staff ac i adolygu'r gwasanaethau a ddarperir. Yn ogystal, mae'r rheolwr gweithrediadau yn cwblhau archwiliadau ansawdd rheolaidd. Mae’r archwiliadau ansawdd yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad y cartref ac yn adlewyrchu ymgysylltiad â phobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref i fesur eu profiad. Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwr yn gefnogol ac yn hawdd mynd ato. Mae adolygiad ansawdd gofal dyddiedig Gorffennaf 2022 yn dangos bod adolygiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau a ddarperir wedi'i gynnal. Mae'r datganiad o ddiben yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth a sut y bydd hon yn cael ei chyflawni. Mae'r rheolwr yn cofnodi cwynion a chanmoliaeth ac yn ymateb i adborth. Gwelsom nad oedd cofnodion gofal bob amser yn cael eu storio'n ddiogel yn y gwasanaeth. Tynnwyd sylw'r rheolwr at hyn, a rhoddodd sicrwydd i ni y byddai hyn yn cael sylw. Nid yw AGC bob amser yn cael hysbysiad rheoliadol o ddigwyddiadau fel sy'n ofynnol mewn modd amserol. Mae'r darparwr wedi gwneud ceisiadau i'r corff goruchwylio mewn perthynas â’r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid nad oeddent wedi'u hadrodd i AGC. Yn dilyn ein harolygiad, mae'r darparwr wedi cyflwyno'r adroddiadau hyn i'r rheoleiddiwr.

Mae angen gwella’r arferion goruchwylio a recriwtio sydd ar waith ar gyfer staff. Gwnaethom adolygu nodiadau goruchwylio dau aelod o staff a chanfod nad oedd sesiynau goruchwylio wedi'u cwblhau'n gyson bob tri mis. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd i rannu materion o bwys ar draws y tîm. Mae ystadegau hyfforddiant yn dangos cydymffurfedd â hyfforddiant craidd gorfodol. Mae angen hyfforddiant gloywi symud a thrin, a dywedwyd wrthym fod hwn wedi'i drefnu i'w gwblhau y diwrnod canlynol.

Gwnaethom ofyn am gofnodion recriwtio ar gyfer tri aelod o staff a gyflogir yn y gwasanaeth, ond nid oedd cofnodion ar gyfer un aelod o staff ar gael. Nid oedd yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chadw ar ffeil yn ôl yr angen. Mae cofnodion yn datgelu bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau. Mae'r gwiriadau a diweddariadau rheolaidd hyn yn bwysig er mwyn adolygu addasrwydd aelod o staff i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae polisi diogelu ar gael yn y gwasanaeth. Mae gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o bryd i adrodd am faterion sy’n ymwneud â diogelu ac at bwy y dylent gyfeirio’r adroddiadau hyn.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 58 | Sicrhau bod trefniadau ar waith i roi meddyginiaethau'n ddiogel | Newydd |
| 48 | Sicrhau bod y cyfleusterau a'r offer a ddefnyddir ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol | Newydd |
| 36 | Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn sesiynau goruchwylio ac arfarniadau priodol | Newydd |
| 35 | Sicrhau bod unrhyw un sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi darparu gwybodaeth a dogfennaeth foddhaol mewn perthynas â phob un o'r materion a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1 | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 22/09/2022